Canolfan Saith Seren
Tachwedd 2016

Bu noson arbennig i ddathlu bywyd y diweddar 'Ieu Rhos' gyda Geraint Lovegreen.

Talodd nifer o bobl deyrnged i Ieu, gan gynnwys Arthur Thomas, Lynn Gwyn, a David Subacchi.

Dyma Siwan a Morgan Menter Iaith Maelor yn cynnal gweithdy crefftau yn ystod gwyliau hanner tymor gyda Deiniol ac Osian.

Roedd tîm Chweched Dosbarth Ysgol Morgan Llwyd yn hapus iawn am ddod yn drydydd yn cwis y mis!

Aled Lewis Evans gyda rhai o feirdd noson Viva Voce mis Tachwedd.

Daeth Rosie a Matthew o Gogs i berfformio unwaith eto a roedden nhw'n wych fel arfer.

Canolfan Saith Seren
Rhagfyr 2016

Dyma Huw, Bob a Judith yn eu gwisg Nadoligaidd yn barod i'r parti.

Perfformiodd Côr DAW ym mharti Nadolig Dysgwyr Wrecsam. Roedd y ganolfan dan ei sang!

Dyma rhai o'r plant oedd yn canu carolau Nadolig yn Saith Seren

Bu parti llwyddiannus i deuluoedd ar noswyl Nadolig i ganu carolau.

Cawson ni noson fythgofiadwy yng nghwmni Bryn Fôn a'r Band. Roedd Saith Seren yn orlawn a phawb wedi mwynhau yn arw.

Dyma Avril, Neil, Nia a Bryn yn cael hwyl ar ddiwedd perfformiad y band. Parhaodd y canu o gwmpas y piano tan oriau man y bore!

Canolfan Saith Seren
Ionawr 2017

Lowri Roberts o Siop Cwlwm gyda'i Siop Wib sy'n dod i Saith Seren unwaith y mis. Yn dilyn cau Siop y Siswrn rydym bellach yn gwerthu nwyddau Cymraeg mewn partneriaeth â Siop Cwlwm.

Cynhaliwyd Ffair Cynyrch lleol gyda nifer o fusnesau bach Wrecsam yn dangos eu nwyddau.

Bu Canolfan Saith Seren dan ei sang ar y 27ain o Ionawr yn dathlu ei phenblwydd yn 5 oed, gyda Chôr Orffiws Y Rhos. Roedd hi'n noson arbennig o dda, a'r Côr yn wych.



Cawson ni noson wych gyda'r band 'Made in Wales'. Mae'r noson jamio pob nos Fercher yn boblogaidd iawn. Dyma Elin ar y drymiau.

Roedd noson farddoniaeth Viva Voce gyda Chlwb Celbran yn llwyddiant ysgubol.

Antony, Ed a Pol yn 'jamio' yn y Clwb Cerdd, sydd yn cyfarfod pob nos Fawrth. Dowch draw os ydych chi eisiau trafod a chyd-chwarae.